# Adroddiad gan Banel Heddlu a Throseddu De Cymru

**PWNC:**

Apwyntiad arfaethedig Mr Lee Jones ar gyfer swydd Pennaeth Dros Dro Staff Heddlu De Cymru a’r Comisiynydd Troseddu.

**DYDDIAD:**

8 Medi 2017

**PENDERFYNIAD:**

Argymhelliad y Panel oedd y dylai’r Comisiynydd apwyntio Mr Lee Jones fel Pennaeth Dros Dro Staff Heddlu De Cymru a’r Comisiynydd Troseddu.

**CEFNDIR:**

Mae gan y Panel gyfrifoldeb statudol yn unol â Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 a’r Rheoliadau sy’n gysylltiedig â hi i:

a) Adolygu ac adrodd ar apwyntiad arfaethedig y Prif Gwnstabl
b) Gwneud argymhelliad ar yr apwyntiad arfaethedig

**APWYNTIAD ARFAETHEDIG:**

Darparwyd adroddiad i’r Panel gan y Comisiynydd cyn i gyfarfod y Panel gael ei gynnal ar 8 Medi 2017. Nododd yr adroddiad y Proffil Rôl, Cwestiynau’r Cyfweliad, Proffil Gwaith/Addysg yr Ymgeisydd a’r Telerau ac Amodau ar gyfer swydd Pennaeth Dros Dro'r Staff. Esboniodd yr adroddiad yn ogystal, y broses recriwtio a dethol ar gyfer swydd Pennaeth Dros Dro'r Staff gan ddod i’r casgliad y dylai’r Comisiynydd argymell apwyntio Mr Lee Jones fel Pennaeth Dros Dro Staff Heddlu De Cymru a’r Comisiynydd Troseddu gan nodi’r rhesymau dros yr argymhelliad. Bodlonwyd y Panel fod yr adroddiad hwn yn darparu’r wybodaeth a amlinellir yn Atodlen 8(3) Deddf Diwygio’r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Esboniodd y Comisiynydd fod y broses recriwtio wedi bod yn un deg ac yn unol â chanllawiau a gweithdrefnau Heddlu De Cymru a bod Mr Jones, yn ei gyfweliad wedi rhagori ar y safonau derbyniol ar gyfer y swydd.

**CASGLIAD:**

Roedd y Panel yn fodlon fod y Comisiynydd wedi gweithredu proses recriwtio a oedd yn deg yn unol â chanllawiau a gweithdrefnau Heddlu De Cymru a bod yr ymgeisydd, Lee Jones wedi cyrraedd y safonau angenrheidiol ar gyfer swydd Pennaeth Dros Dro'r Staff.

**ARGYMHELLIAD:**

Argymhelliad unfrydol y Panel felly oedd y dylai'r Comisiynydd apwyntio Mr Lee Jones fel Pennaeth Dros Dro Staff Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd Troseddu.